| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Hydref 2012** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Cynghorydd David Smith / Paul Mead** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Paul Mead** |
| **Teitl:** | **Diweddariad ar Gydymffurfio Cynllunio** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

Bwriad yr adroddiad yw egluro'r modd y mae'r Cyngor yn ymgymryd â'i swyddogaeth statudol o Gydymffurfio Cynllunio (Gorfodi Cynllunio). Bydd yn egluro gwaith y tîm Cydymffurfio Cynllunio wrth ddelio gydag achosion potensial o dorri rheolaeth gynllunio a hefyd rôl y tîm o fewn y Grŵp Gorfodi Adfywio. Bydd yr adroddiad yn amlygu'r blaenoriaethau lefel uwch presennol i'r tîm ac yn egluro sut y gellir delio gyda pheth o'r gwaith lefel is.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ar rôl y tîm Cydymffurfio Cynllunio ac i roi sylw i unrhyw bryderon y bydd Aelodau yn eu mynegi ynghylch perfformiad, blaenoriaethau ac adnoddau cyfredol y tîm.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cynnig sylwadau ar gynnwys yr adroddiad ac yn awgrymu gwelliannau posibl i'r dyfodol.

## 4. Manylion yr adroddiad.

### Cefndir

Mae'r system Cynllunio Gwlad a Thref yng Nghymru yn rheoleiddio defnydd a datblygiad holl dir ac adeiladau. O bryd i'w gilydd, bydd gofyn i Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried cymryd camau gorfodi yn erbyn datblygiad heb ei awdurdodi neu unrhyw achos o dorri amod cynllunio a osodwyd fel rhan o ganiatâd cynllunio.

Er nad yw'n dramgwydd troseddol yn ei hunan i ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad heb ei awdurdodi neu newid y defnydd a wneir o dir, mae pwerau ar gael i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddod â datblygiad heb ei awdurdodi dan reolaeth cynllunio. Mae methu cydymffurfio gyda chamau gorfodi yn drosedd.

Yn ôl Rhan VII o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990, mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ystod o bwerau gorfodi i ymdrin ag achosion o dorri ar reolaeth gynllunio. Mae'r pwerau hyn yn rhai dewisol.

Ynghlwm fel **Atodiad 1** mae taflen gan Lywodraeth Cymru sy'n crynhoi'n fyr beth yn union yw Gorfodi Cynllunio.

**Swyddogaeth Cydymffurfio Cynllunio Presennol Cyngor Sir Ddinbych**

Yn Sir Ddinbych, y tîm Rheolaeth a Chydymffurfio Cynllunio, yn gweithio o Galedfryn, Dinbych sy'n gyfrifol am Orfodi Cynllunio. Mae'r tîm yn rhan o'r Gwasanaeth Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus.

Ar hyn o bryd, rheolir y tîm gan y Rheolwr Rheolaeth a Chydymffurfio Cynllunio gyda 2 Swyddog llawn amser yn ymgymryd â holl achosion y Sir gyfan. Mae trydydd Swyddog ar gyfnod sabothol yn Awstralia ar hyn o bryd, ac wedi cadarnhau na fydd yn dychwelyd i'w swydd.

Mae'r tîm yn ymdrin â thua 500 o gwynion yn ymwneud â chynllunio bob blwyddyn.

Ynghlwm fel **Atodiad 2** mae dogfen Polisi a Gweithdrefnau Cydymffurfio Cynllunio Sir Ddinbych sy'n nodi sut mae'r tîm yn delio gyda chwynion. Mae angen adolygu'r ddogfen ymhellach a'i mabwysiadu'n ffurfiol.

Ers 2011, mae'r tîm Cydymffurfio Cynllunio wedi bod yn rhan o Grŵp Gorfodi Adfywio ar draws Gwasanaeth. Pwrpas y grŵp hwn yw dod â'r holl dimau rheoleiddio perthnasol o fewn y Gwasanaeth ynghyd gyda'r nod o adfywio safleoedd sy'n "ddolur llygad" trwy ddefnyddio pwerau gorfodi amrywiol. Mae'r tîm Cydymffurfio Cynllunio yn chwarae rôl allweddol yn y grŵp hwn trwy ddefnyddio pwerau deddfwriaethol amrywiol i ddelio gyda safleoedd ac adeiladau blêr a diffaith.

Mae'r grŵp wedi creu matrics sgorio i amlygu safleoedd problem sydd angen blaenoriaeth. Yn aml, mae angen ymagwedd gyfannol ar y safleoedd hyn er mwyn sicrhau gwelliannau amgylcheddol a chymunedol. Mae'r ymagwedd hon yn defnyddio gorfodi cynllunio a phwerau gorfodi eraill yn fwy effeithiol trwy dargedu safleoedd a thirfeddianwyr anodd mewn modd sy'n seiliedig ar brosiect. Mae hyn yn arwain at ganlyniad mwy cynaliadwy yn y tymor hir. Weithiau, nid yw cyflwyno hysbysiadau gorfodi i geisio tacluso safle wag neu safle broblem yn ymdrin â'r materion mwy tymor hir o ganfod defnydd ymarferol ac addas i'r safleoedd hynny.

Wrth weithio fel hyn, mae'r tîm Cydymffurfio Cynllunio wedi gorfod ceisio blaenoriaethu gwaith. Gwnaethpwyd hyn trwy wahanu'r achosion o dorri amodau cynllunio lefel uchel a phrosiectau adfywio/dolur llygad o'r lefel is, sef torri mân amodau cynllunio.

Mae swyddogion yn ymwybodol bod unrhyw gwŷn sy'n ymwneud â chynllunio yn flaenoriaeth i'r unigolyn sy'n gwneud y gwŷn honno. Fodd bynnag, mae cyfran dda o'r cwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â chynllunio yn ymwneud ag achosion o dorri amodau cymharol gyffredin. Mae'r rhain yn gallu bod yn fân newidiadau mewn defnydd neu'n achosion o anghydfod rhwng cymdogion nad ydynt angen unrhyw weithredu ffurfiol. Yn aml, bydd y Swyddogion yn dod yn gyfryngwyr wrth ddelio gydag achosion o'r fath. Tra bod hyn yn gallu bod yn adnodd gwerthfawr i aelodau o'r Gymuned, nid dyma o reidrwydd yw'r defnydd gorau y gellir ei wneud o amser Swyddogion proffesiynol. Byddai ymdrin â safleoedd dolur llygad, defnyddio crebwyll

proffesiynol a chyfreithiol a chyflwyno hysbysiadau priodol i droseddwyr yn cael mwy o fudd i'r gymuned yn y tymor hir.

Fel rhan o broses ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd sydd ar y gweill, mae Swyddogion yn edrych ar ffyrdd mwy effeithlon o reoli'r gwaith cydymffurfio cynllunio lefel uwch, gan gynnwys safleoedd dolur llygad, a'r achosion lefel îs. Credir ei bod yn fwy priodol cyfeirio Swyddogion cydymffurfio cynllunio i ymgymryd â'r gwaith lefel uwch ar safleoedd problem hysbys, monitro cytundebau cyfreithiol a sicrhau bod amodau cynllunio yn cael eu dilyn. Byddai modd i Swyddogion mewn timau Diogelwch Cyhoeddus neu Ddiogelwch Cymunedol eraill ymdrin ag achosion o anghydfod rhwng ynghylch uchder ffensys, codi posteri'n anghyfreithlon neu fân doriadau cynllunio eraill.

Bydd y materion gweithredol hyn yn cael eu symud ymlaen fel rhan o'r broses ailstrwythuro. Fodd bynnag, mae Swyddogion yn hyderus y bydd yr ymagwedd hon sy'n cynnig mwy o ffocws yn arwain at ganlyniadau mwy effeithiol i bawb yn y gymuned trwy ddefnyddio adnoddau staff presennol yn fwy effeithlon. Mae dogfen y Cynnig Prosiect sy'n rhoi manylion ar y gwaith ailstrwythuro'r swyddogaeth Cydymffurfio sydd ar y gweill ynghlwm fel **Atodiad 3** er gwybodaeth.

**Perfformiad**

Yn hanesyddol, y mesur perfformiad safonol a ddefnyddiwyd i ymdrin â chwynion cynllunio oedd cyflymdra delio gyda chwyn. Targed cytûn Cymru gyfan yw ymdrin â chwŷn o fewn 12 wythnos i ddyddiad cofrestru'r gwyn. Mae Sir Ddinbych yn parhau i fesur y perfformiad hwn, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (2011/12) llwyddodd i ymdrin ag oddeutu 60% o'r cwynion a dderbyniwyd o fewn y cyfnod 12 wythnos benodol.

Fodd bynnag, nid yw'r dangosydd hwn yn rhoi sylw i'r gwaith mwy strategol y mae'r tîm yn ymgymryd ag ef, sef ceisio datrys problemau tymor hir eu natur gyda safleoedd ac adeiladau problem.

Awgrymir y gellir creu dangosyddion sy'n rhoi mwy o ffocws ar fonitro cytundebau cyfreithiol adran 106, ymdrin â safleoedd ac adeiladau problem, gan gynnwys safleoedd dolur llygad, a delio gydag achosion cydymffurfio cynllunio y mae Cynghorau Tref a Chymuned yn rhoi gwybod amdanynt.

Ynghlwm fel **Atodiad 4** er gwybodaeth y Pwyllgor, mae rhestr o faterion Cydymffurfio Cynllunio wedi'u categoreiddio'n lefel uchel ac isel. Fel rhan o'r broses ailstrwythuro sydd ar y gweill, cynhelir trafodaethau gyda chydweithwyr perthnasol yn y timau Diogelwch Cyhoeddus a Diogelwch Cymunedol ynghylch eu rôl wrth ymdrin â rhai o'r materion lefel isaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn gofyn am unrhyw benderfyniad ffurfiol. Bydd ymagwedd at Gydymffurfio Cynllunio sy'n rhoi mwy o ffocws yn gysylltiedig â phwerau rheoleiddiol eraill yn cyfrannu at amcanion adfywio'r Cyngor. Bydd gwaith y tîm Cydymffurfio

Cynllunio hefyd yn cyfrannu at nod y Cynllun Corfforaethol o sicrhau strydoedd glân a thaclus.

**6. Beth yw'r gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni ddylai fod unrhyw oblygiadau ariannol neu oblygiadau eraill ar wasanaethau.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal ar y papur hwn, er bod ailstrwythuro cam 1 Cynllunio a Diogelwch Cyhoeddus wedi digwydd mewn ymgynghoriad gyda staff ac undebau.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

**Ddim yn berthnasol.**

**9. Beth yw'r risgiau ac a allwn ni wneud rhywbeth i'w lleihau**

Mae yna risgiau yn gysylltiedig â methu â darparu swyddogaeth Cydymffurfio Cynllunio cydlynol a grymus. Nid yw Swyddogion yn teimlo bod hyn yn wir ar hyn o bryd. Bydd yr awgrymiadau a wneir yn yr adroddiad hwn am ymagwedd sy'n rhoi mwy o ffocws ar holl swyddogaethau rheoleiddio yn arwain at well perfformiad yn y maes hwn.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r pŵer i weithredu Gorfodi Cynllunio priodol o fewn Rhan VII o Ddeddf Gynllunio Gwlad a Thref 1990.